# Ysgolion Bangor - Arweiniad Myfyrwyr Rhyngwladol Prifysgol Bangor

ADDYSG

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.llyw.cymru

# RHAGYMADRODD

## Annwyl Rieni

Cafodd y llyfryn hwn ei baratoi gan Gyngor Gwynedd (fel Awdurdod Mynediad y rhan fwyaf o'r Ysgolion ym Mangor) er mwyn rhoi i rieni a fydd yn fyfyrwyr /yn aelodau staff Prifysgol Bangor, ac sydd yn anghyfarwydd â'r ardal, fanylion allweddol ynghylch trefniadau mynediad i ysgolion ym Mangor.

Ceir gwybodaeth llawn yn y llyfr Gwybodaeth i Rieni sydd ar gael o ysgolion neu ar ein gwefan
**www.gwynedd.llyw.cymru/mynediadysgolion**
Mae pob ysgol hefyd yn paratoi prosbectws ysgol, ac mae copïau ohonynt ar gael o'r ysgolion.

Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o lywodraeth leol ac mae'n gyfrifol am yr ysgolion ym Mangor. Gwynedd yw hefyd enw'r ardal o Gymru ble mae Bangor wedi ei leoli.

Amcan cyffredinol system addysgol Gwynedd yw darparu addysg o'r ansawdd uchaf posibl ar gyfer pob disgybl, yn unol â'u hoedran, gallu a diddordeb/tueddfryd, er mwyn eu galluogi i ddatblygu'n unigolion crwm, datblygu a defnyddio'u holl ddoniau, a bod yn aelodau cyfrifol o gymuned ddwyieithog.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf posibl i blant Gwynedd mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr a rhieni. Rhydd pob ysgol werth ar gefnogaeth rhieni a'n gobaith yw y byddwch yn achub ar y cyfle i ddarganfod mwy ynghylch eich hysgol leol ac y bydd eich ymglymiad gyda'r ysgol yn parhau tra bydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi dalgylchol ac fel arfer, mae disgyblion yn mynychu'r ysgol yn y dalgylch maent yn byw ynddo a ble bydd yr Awdurdod wedi darparu lle, staffio ac adnoddau eraill. Mae gan bob ysgol ddalgylch diffiniedig a cheir gwybodaeth ynghylch pa ddalgylch (oedd) mae tŷ wedi ei leoli, ar ein gwefan.
**https://www.gwynedd.llyw.cymru/mynediadysgolion**

Er bod Gwynedd yn gweithredu polisi dalgylch, gall rhieni leisio dewis o unrhyw ysgol. Mae'n bwysig bod rhieni'n deall bod ysgolion ym Mangor yn boblogaidd iawn gyda rhieni sy'n byw tu allan i Fangor ond sy'n gweithio yn y ddinas. Mae hyn yn golygu y gall sawl un o'r ysgolion fod yn llawn ar adegau ac nad oes lleoedd ar gael mewn pob blwyddyn ysgol.

Ar y tudalennau nesaf, ceir atebion i gwestiynau cyffredin mae rhieni'n aml yn eu gofyn.

## Pa oedran y gall fy mhlentyn ddechrau yn yr ysgol?

1) **Cyn Ysgol Feithrin Rhan Amser**
   Mae'r Awdurdod yn cynnig addysg feithrin yn ddi-dâl i blant yn y tymor yn dilyn eu penblwydd yn dair oed, am weddill y flwyddyn ysgol (Medi - Gorffennaf). Cynigir y lleoedd gan bartneriaid yn y sectorau gwirfoddol ac annibynnol. Gellir cael rhestr o'r darparwyr trwy gysylltu â Rheolwr y Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar ar **01248 352436** neu sionedannowen@gwynedd.llyw.cymru

2) **Dosbarth Meithrin Ysgol Rhan Amser**
   Mae'r Awdurdod yn cynnig lle meithrin rhan amser i blant mewn ysgol, yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed, am flwyddyn ysgol lawn. Dylid nodi nad yw penderfyniad i roi mynediad i blentyn i ddosbarth meithrin yn gwarantu lle iddo/iddi yn nosbarth derbyn yr ysgol honno yn y flwyddyn ganlynol.

3) **Dosbarth Derbyn Llawn Amser**
   Mae'r Awdurdod yn cynnig lle llawn amser i blant mewn dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed.

   O dan y gyfraith, mae'n rhaid i blant yn Lloegr a Chymru dderbyn addysg llawn amser o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bump oed.

## Sut wyf yn gwneud cais am le mewn Ysgol?

Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Mynediad y rhan fwyaf o'r ysgolion ym Mangor (ac eithrio Ysgol Ein Harglwyddes, gweler isod) ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch mynediad. Nid oes gan Benaethiaid yr ysgolion hyn unrhyw ran yn y broses mynediad ac ni fyddant yn trafod y lleoedd sydd ar gael. Rhaid cyflwyno pob cais am fynediad i'r Awdurdod yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r ffurflenni a ddarperir (ar gael yn yr ysgolion neu ar www.gwynedd.llyw.cymru/mynediadysgolion)

Ceir manylion ynghylch pob penderfyniad yn ysgrifenedig hefyd. Ni all yr Awdurdod drafod os oes lleoedd ar gael os na chaiff cais ei gyflwyno.

Mr Dewi Hughes yw'r Swyddog Mynediad Ysgol a gellir cysylltu ag ef ar **01286 679904** neu ar mynediadysgol@gwynedd.llyw.cymru os oes gennych ragor o gwestiynau.

Efallai na fydd lle yn yr ysgol honno oedd eich dewis cyntaf ac felly, gofynnir i chi nodi mwy nac un dewis. Os oes lle ar gael mewn mwy nac un ysgol, dim ond eich dewis uchaf, ble mae lleoedd ar gael, fydd yn cael ei gynnig i chi.

Corff Llywodraethol Ysgol Ein Harglwyddes yw Awdurdod Mynediad eu hysgol a rhaid i rieni wneud cais i'r Corff Llywodraethol trwy'r Pennaeth ac nid i Gyngor Gwynedd.

## Pryd y dylwn wneud cais?

***Cyn gynted a bo modd!*** Peidiwch ag aros nes rydych wedi cyrraedd neu sicrhau llety. Ceir dyddiadau cau ar gyfer cael mynediad i'r dosbarth meithrin, dosbarth derbyn a Blwyddyn 7 (y rowndiau mynediad arferol). Mae'n anodd cael mynediad i bob blwyddyn os ydych yn gwneud cais yn ystod gwyliau'r haf neu ar ôl i dymor ysgol ddechrau gan y gall ysgolion eisoes fod yn llawn. Mae eich cyfeiriad yn rhan bwysig o'r meini prawf mynediad (dalgylch a pellter o'r ysgol). Mae felly'n bwysig eich bod yn hysbysu'r Awdurdod os ydych yn symud cyfeiriad rhwng adeg cael cynnig lle mewn ysgol a bod eich plentyn yn dechrau neu nad ydych yn symud i gyfeiriad a gafodd ei ddefnyddio gennych i wneud cais am le.

Fel arfer, mae'n cymryd rhwng un a tair wythnos i brosesu ceisiadau am fynediadau tu allan i'r rowndiau mynediad arferol. Ar ôl cael caniatâd, gellir yna trafod yr union ddyddiad bydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol, gyda'r ysgol.

## Sut mae'r Awdurdod yn dyrannu lleoedd?

Mae rhyddid gan rieni ddatgan dewis o unrhyw ysgol a bydd yr Awdurdod yn cynnig lleoedd nes bod yr ysgol yn llawn.

## Beth os ceir mwy o geisiadau nac sydd o leoedd ar gael?

Mewn achos ble mae ysgolion yn derbyn mwy o geisiadau nac sydd o leoedd ar gael, defnyddir meini prawf gorlenwi, i flaenoriaethu ceisiadau. Ceir y meini prawf llawn yn llyfr yr Awdurdod: Gwybodaeth i Rieni. Mae eich cyfeiriad yn rhan bwysig o'r meini prawf hyn.

## Beth sy'n digwydd os gwrthodir lle i fy mhlentyn?

Os na all yr Awdurdod gynnig lle i blentyn yn ystod y rownd mynediad arferol, cedwir eu henw ar restr aros hyd 30ain Medi. Os gwrthodir cais tu allan i'r rownd mynediad arferol, caiff enw'r plentyn ei ychwanegu at y rhestr aros hyd ddiwedd y tymor hwnnw. Dylai rhieni ail-ymgeisio yn ystod wythnos gyntaf y tymor canlynol am i enw'r disgybl aros ar y rhestr aros am dymor arall. Caiff lleoedd eu blaenoriaethu yn unol â'r meini prawf gorlenwi ac nid yn ôl y dyddiad y cafodd cais am le ei gyflwyno'n wreiddiol. Ni all yr Awdurdod roi unrhyw arwydd o pa mor debygol yw y caiff lle ei gynnig o restr aros.

Gall rhieni hefyd apelio i banel annibynnol yn erbyn y penderfyniad i beidio â caniatáu mynediad i'r plentyn. Mae taflen wybodaeth ynghylch yr apêl ar gael gan yr Awdurdod. Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lle rhan amser mewn dosbarth meithrin.

## Cludiant i ac o'r Ysgol

Cyfrifoldeb y rhiant yw sicrhau bod plentyn yn cyrraedd ac yn dychwelyd o'r ysgol yn ddiogel os yw eu cyfeiriad cartref o dan uchafswm pellter cerdded Llywodraeth Cymru (2 milltir/3.2Km i ysgol gynradd neu 3 milltir/4.8Km i ysgol uwchradd)

## Oriau mae'r Ysgol ar agor a gofal plant arall

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r diwrnod ysgol yn dechrau tua 9:00 ac yn gorffen tua 15:00 neu 15:30, yn dibynnu ar oedran y plant. Fel arfer, mae plant dosbarth meithrin rhan amser yn derbyn 2 awr a chwarter o addysg, fel arfer mae'r sesiwn yn dechrau naill ai am 9:00 neu am 13:00.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ym Mangor yn rhedeg clybiau brecwast ble gall plant dderbyn brecwast a gofal plant am tua awr cyn i'r diwrnod ysgol ddechrau. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r gwasanaeth hwn yn ddi-dâl.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion (yn aml mewn partneriaeth â sefydliadau preifat, a all rentu ystafelloedd neu gabanau yn yr ysgol), yn darparu gofal plant ar ôl oriau ysgol hyd tua 18:00. Codir tâl am y gofal plant hwn.

Mae rhai ysgolion (yn aml mewn partneriaeth â sefydliadau preifat, a all rentu ystafelloedd neu gabanau yn yr ysgol) hefyd yn darparu gofal plant ar gyfer plant meithrin rhan amser fel y gallant dreulio'r diwrnod cyfan yn yr ysgol. Codir tâl am y gofal plant hwn.

## Beth yw polisi Gwynedd o ran defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg?

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu polisi Cymraeg/Saesneg dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd.
Y nod yw sicrhau dwyieithrwydd cytbwys ar sail oed ymhlith holl disgyblion y sir i'w galluogi ddatblygu'n aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn perthyn iddi.

Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer plant sy'n symud i fyw i Wynedd (ac nad ydynt yn siarad Cymraeg) ac ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol difrifol.

Mae pob ysgol yn ysgol dwyieithog sy'n addas ar gyfer pawb sy'n byw yn eu hardal. Mae gan bob ysgol ym Mangor brofiad maith o helpu plant o rannau eraill o Brydain a thramor, i ymgartrefu. Ni cheir gwahaniaeth mewn faint o Gymraeg/Saesneg a ddefnyddir rhwng yr ysgolion hyn. Er hynny mae Ysgol Tryfan yn arbenigo mewn darparu addysg cyfrwng Cymraeg, felly, mae rhieni plant sy'n symud o ardaloedd ble na siaredir Saesneg/Cymraeg fel arfer yn mynychu un o'r ysgolion eraill ym Mangor.

Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn cyflogi staff arbenigol sydd yn gyfrifol am ddarparu a chefnogi plant yn ysgolion Gwynedd sydd yn dysgu Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â'r ieithoedd a siaredir yn eu cartrefi ac yn eu cymuned. Daw llawer o'r plant hyn o deuluoedd sy'n gysylltiedig â'r brifysgol a'r ysbyty a all fod yn byw yn yr ardal dros dro.

Mae'r staff yn gweithio yn gylchynol ac maent mewn cyswllt yn rheolaidd â'r holl ysgolion yn ardal Bangor (er bod y staff yn defnyddio ystafell yn Ysgol Cae Top, nid ydynt yn rhan o'r ysgol honno ac mae'r staff yn rhoi'r un faint o gefnogaeth i bob ysgol). Maent mewn cyswllt â'r coleg addysg bellach lleol, Coleg Menai, sydd eisoes wedi sefydlu grwpiau o rieni yn yr ysgolion sydd â diddordeb mewn dysgu Saesneg ac/neu Gymraeg. Mae'r staff yn annog ysgolion i ddathlu amrywiaeth cyfoethog ieithoedd a diwylliannau maent yn eu cynrychioli, trwy gynnal wythnosau Rhyngwladol, sefydlu prosiectau 'Iaith y Mis' a chymryd rhan mewn gwyliau crefyddol, megis Eid.

## Rhestr o Ysgolion sydd yng Nghanol Dinas Bangor

### YSGOLION UWCHRADD

**YSGOL FRIARS,** Bangor, LL57 2LN. **Pennaeth**, Neil Foden
☎ 01248 364905 ✉ pennaeth@friars.gwynedd.sch.uk

**YSGOL TRYFAN** [1] Bangor, LL57 2TY. **Pennaeth**, Arwyn Williams
☎ 01248 352633 ✉ pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk

### YSGOLION CYNRADD

**Ysgol y Garnedd** Bangor, LL57 2LX. **Pennaeth**, Llion Williams
☎ 01248 352534 ✉ pennaeth@garnedd.gwynedd.sch.uk

**Ysgol Hirael** Bangor, LL57 1BA. **Pennaeth**, Stuart Pritchard
☎ 01248 352182 ✉ pennaeth@hirael.gwynedd.sch.uk

**Ysgol Y Faenol** Bangor, LL57 2NN. **Pennaeth**, Joanna Thomas
☎ 01248 352162 ✉ pennaeth@faenol.gwynedd.sch.uk

**Ysgol Cae Top** Bangor, LL57 2GZ. **Pennaeth**, Llew Davies
☎ 01248 352325 ✉ pennaeth@caetop.gwynedd.sch.uk

**Ysgol Ein Harglwyddes** [2] Bangor, LL57 2UT. **Pennaeth**, Aimee Jones
☎ 01248 352463 ✉ pennaeth@ourladys.gwynedd.sch.uk

1) Mae pob ysgol yn ysgol dwyieithog sy'n addas ar gyfer pawb sy'n byw yn eu hardal. Mae gan bob ysgol ym Mangor brofiad maith o helpu plant o rannau eraill o Brydain a thramor, i ymgartrefu. Ni cheir gwahaniaeth mewn faint o Gymraeg/Saesneg a ddefnyddir rhwng yr ysgolion hyn. Er hynny mae Ysgol Tryfan yn arbenigo mewn darparu addysg cyfrwng Cymraeg, felly, mae rhieni plant sy'n symud o ardaloedd ble na siaredir Saesneg/Cymraeg fel arfer yn mynychu un o'r ysgolion eraill ym Mangor.

2) Ceir yn Ysgol Ein Harglwyddes ethos grefyddol Babyddol gyda dalgylch sy'n cynnwys Bangor gyfan a'r ardaloedd o amgylch. Serch hyn mae plant o lawer o grefyddau yn mynychu.


Y Faenol
Cae Top
Friars
Y Garnedd
Tryfan
Ein Harglwyddes
Glancegin
Hirael
PORTHAETHWY /
MENAI BRIDGE
BANGOR
Ffordd Treborth / Treborth Road
Holyhead Road
Penrhos Garnedd
Coed Mawr
Minffordd
Bangor Uchaf / Upper Bangor
A55
A487
A4087
B5420
A545
A5
Contains OS data © Crown Copyright and database right 2022

# Bangor Schools - Bangor University Overseas Students Guide

EDUCATION

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.llyw.cymru

# INTRODUCTION

## Dear Parents

This booklet has been prepared by Gwynedd Council (as the Admission Authority for most of the Schools in Bangor) to give parents who will be students/staff of Bangor University, and who are not familiar with the area, key details of admission arrangements to schools in Bangor.

Full information can be found in the Information for Parents book available on our website **www.gwynedd.llyw.cymru/schooladmissions**
Each school also produces a school prospectus, copies of which are available from the schools.

Gwynedd Council is a part of local government and is responsible for the schools in Bangor. Gwynedd is also the name for the area of Wales in which Bangor is located.

The general aim of the Gwynedd educational system is the provision of education of the highest possible quality for all pupils, in accordance with their age, ability and interest/aptitude, so that they become rounded personalities, develop and use all their talents, and equip themselves to be responsible members of a bilingual community.

The Council is committed to providing first class education for the children of Gwynedd in partnership with schools, governors and parents. All schools value the support of parents and we hope you will take the opportunity to find out about your local school and continue your involvement with the school during your child's attendance.

The Authority operates a catchment area policy and pupils normally attend the school in whose catchment area they reside and where the Authority will have made provision with regard to accommodation, staffing and other resources including school transport. Each school has a defined catchment area and information on which catchment area(s) a house is in is available on our website.
**https://www.gwynedd.llyw.cymru/schooladmissions**

Although Gwynedd operates a catchment area policy, parents are free to express a preference for any school. It is important for parents to understand that schools in Bangor are very popular with parents who live outside of Bangor but work in the city. This can mean that several of the schools can be full at times and not have spaces in all school years.

The next few pages will answer common questions often asked by parents.

## At what age can my child start school?

1) **Part Time Pre School Nursery**
The Authority offers nursery education free of charge to children in the term following their third birthday for the remainder of the academic year (September - July). The places are offered by partners in the voluntary and independent sectors. A list of the providers is available by contacting the Manager of the Early Years Service on **01248 352436** or sionedannowen@gwynedd.llyw.cymru

2) **Part Time School Nursery Class**
The Authority offers children a part time nursery place in a school, in the September following their third birthday for a full academic year. It should be noted that a decision to admit a child to a nursery class does not guarantee a place in the reception class of that school in the following year.

3) **Full Time Reception Class**
The Authority offers children a full time place in a reception class in the September following their fourth birthday.

It is the law that children in England and Wales must receive full time education from the term following their fifth birthday.

## How do I apply for a School place?

Gwynedd Council is the Admissions Authority of most of the schools in Bangor (apart from Ysgol Ein Harglwyddes, see below) and is responsible for making decisions on admissions. Headteachers of these schools have no role in the admissions process and will not discuss the availability of places. All applications for admission must be submitted to the Authority in writing, using the forms provided on www.gwynedd.llyw.cymru/schooladmissions

All decisions will also be given in writing. The Authority is not able to discuss the availability of places over the telephone without an application having been submitted.

Mr Dewi Hughes is the School Admissions officer and can be contacted on **01286 679904** or schooladmission@gwynedd.llyw.cymru if you have further questions.

As there may not be space in your first preference of school you are encouraged to state more than one preference. If a place is available at more than one school, only the highest of your preferences available will be offered to you.

The Governing Body of Ysgol Ein Harglwyddes are their own Admission Authority and parents must apply to the Governing Body through the Headteacher and not to Gwynedd Council.

## When should I apply?

***As soon as possible!*** Do not wait until you have arrived or have secured accommodation. There are deadlines for admission to the nursery class, reception class and Year 7 (the normal admissions rounds). Admission to all years is more difficult if you apply during the summer holidays or after a school term has started as schools may already be full. Your address is an important part of the admissions criteria (catchment area and distance to the school). Therefore, it is important that you inform the Authority if you move address in between a school place being offered and your child starting or if you do not move to an address you used to apply for a place.

Applications for admissions outside the normal admission rounds normally take between one and three weeks to be processed. Once permission is granted, the exact start date can then be discussed with the school.

## How does the Authority allocate places?

Parents are free to express a preference for any school and the Authority will offer places until the school is full.

## What if there are more applications than places?

Where schools have more applications than places, oversubscription criteria are used to prioritise applications. The full criteria can be seen in the Authority's Information for Parents book. Your address is an important part of these criteria.

## What happens if my child is refused a place?

Should the Authority not be able to offer a place to a child during the normal admissions round, their name will be kept on a waiting list until the 30$^{th}$ of September. If an application outside the normal admissions round is refused the child's name will be added to the waiting list until the end of that term. Parents should re-apply during the first week of the following term for the pupil's name to remain on the waiting list for another term. Priority for places will be given according to the oversubscription criteria and not according to the date on which an application for a place was originally submitted. The Authority is unable to give any indication of the likelihood of being offered a place from a waiting list.

Parents may also appeal against the decision not to admit the child to an independent panel. An information sheet regarding the appeal is available from the Authority. There is no right of appeal in the case of a decision to refuse a part-time place in a nursery class.

## Transport to and from School

It is the parent's responsibility to get children to and from school safely if they live under the Welsh Government's maximum walking distance (2 miles/3.2 Km for primary school or 3 miles/4.8 Km for secondary school)

## School opening times and other childcare

The school day in most schools begins around 9:00 and ends around 15:00 or 15:30, depending on the age of the children. Part time nursery year children usually receive 2 and a quarter hours of education, the session usually begins at either 9:00 or 13:00.

Most schools in Bangor operate breakfast clubs where children can receive a breakfast and childcare for about an hour before the schools starting time. This service is free of charge in the majority of schools.

Most schools (often in partnership with private organisations, who may rent rooms or cabins at the school) provide childcare after the end of the school hours until about 18:00. There is a charge for this childcare.

Some schools (often in partnership with private organisations, who may rent rooms or cabins at the school) also provide childcare for part time nursery children to allow them to spend all day at the school. There is a charge for this childcare.

## What is Gwynedd's policy regarding the use of the Welsh and English languages?

Gwynedd Council operates a bilingual Welsh/English policy throughout all Gwynedd schools.
The aim is to ensure balanced age-related bilingualism in all the county's pupils to enable them to be full members of the bilingual society of which they are part.

Special provision will be made for children who move to Gwynedd (and do not speak Welsh) and for children with severe Additional Learning Needs.

All schools are bilingual schools suitable for everyone who lives in their area. All the schools in Bangor have a long experience of helping children from other parts of the United Kingdom and abroad settle. There is no difference in the amount of Welsh/English that is used between these schools. However Ysgol Tryfan specialise in the provision of Welsh medium education and therefore parents of children who move from non-English/Welsh speaking areas usually attend one of the other schools in Bangor.

Gwynedd Council also employ specialist staff whose role is to ensure appropriate provision and support for children in Gwynedd schools who are learning Welsh and English, in addition to the languages spoken at home and in their community. Many of these children are from families connected with the university and hospital who may be here for limited periods of time.

The staff work on a peripatetic basis and have regular contact with all the schools in the Bangor area (although the staff use a room in Ysgol Cae Top they are not part of that school and the staff support all schools equally). They have contact with the local further education college, Coleg Menai, who have already established groups of parents in the schools who are interested in learning English and/or Welsh. The staff encourage schools to celebrate the rich diversity of languages and cultures represented within them, by holding International weeks, establishing 'Language of the Month' projects and sharing in religious festivals, such as Eid.

## List of Bangor City Centre Schools

### SECONDARY SCHOOLS

**YSGOL FRIARS,** Bangor, LL57 2LN. **Headteacher**, Neil Foden
☎ 01248 364905 ✉ pennaeth@friars.gwynedd.sch.uk

**YSGOL TRYFAN** [1] Bangor, LL57 2TY. **Headteacher**, Arwyn Williams
☎ 01248 352633 ✉ pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk

### PRIMARY SCHOOLS

**Ysgol y Garnedd** Bangor, LL57 2LX. **Headteacher**, Llion Williams
☎ 01248 352534 ✉ pennaeth@garnedd.gwynedd.sch.uk

**Ysgol Hirael** Bangor, LL57 1BA. **Headteacher**, Stuart Pritchard
☎ 01248 352182 ✉ pennaeth@hirael.gwynedd.sch.uk

**Ysgol Y Faenol** Bangor, LL57 2NN. **Headteacher**, Joanna Thomas
☎ 01248 352162 ✉ pennaeth@faenol.gwynedd.sch.uk

**Ysgol Cae Top** Bangor, LL57 2GZ. **Headteacher**, Llew Davies
☎ 01248 352325 ✉ pennaeth@caetop.gwynedd.sch.uk

**Ysgol Ein Harglwyddes** [2] Bangor, LL57 2UT. **Headteacher**, Aimee Jones
☎ 01248 352463 ✉ pennaeth@ourladys.gwynedd.sch.uk

1) All schools are bilingual schools suitable for everyone who lives in their area. All the schools in Bangor have a long experience of helping children from other parts of the United Kingdom and abroad settle. There is no difference in the amount of Welsh/English that is used between these schools. However Ysgol Tryfan specialises in the provision of Welsh medium education and therefore parents of children who move from non-English/Welsh speaking areas usually attend one of the other schools in Bangor.

2) Ysgol Ein Harglwyddes has a Roman Catholic Christian religious ethos with a catchment area that includes all of Bangor and surrounding areas. Although children from many faiths attend.




Contains OS data © Crown Copyright and database right 2022